**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 23 Ebrill 2024**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Y Cynghorydd Jason McLellan – Cysylltiad Personol sy'n Rhagfarnu – Eitem rhif 5 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Rhys Thomas – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 6 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Pauline Edwards – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 6 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Mark Young – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 6 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Jason McLellan – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 7 ar y Rhaglen |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2024 a chadarnhau eu bod yn gywir.* |
| **5** | PROSIECT ARCHIFAU GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cadarnhau ei gefnogaeth i Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru i dderbyn cynnig grant Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol o £7,371,397, yn amodol bod Cabinet Cyngor Sir y Fflint yn gwneud yr un fath;*<br><br>*(b) cadarnhau'r ymrwymiad i Gyngor Sir Ddinbych gyfrannu cyllid cyfatebol o £2,052,358 o gyllid cyfalaf a fyddai'n cael ei dalu drwy fenthyca darbodus yn amodol bod Cyngor Sir y Fflint yn cadarnhau eu bod yn derbyn y grant a'u cyfraniad cyfalaf hwythau. Disgwyliwyd mai'r uchafswm cost refeniw i Gyngor Sir Ddinbych fyddai tua £136,000;*<br><br>*(c) rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr ac Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth, i lofnodi Cytundeb Cydweithio sy'n cynnwys adeiladu'r cyfleuster newydd, gweithrediad Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru a Phenawdau'r Telerau ar gyfer prydlesu'r adeilad newydd, cyn belled nad yw'r gost yn fwy na'r gyllideb* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *gyffredinol o £12,892,294, a*<br><br>*(d) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **6** | CYMUNEDAU DYSGU CYNALIADWY - RHAGLEN DREIGL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo bod y Rhaglen Amlinellol Strategol ddrafft ar gyfer y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, (Atodiad 1 yr adroddiad), yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w hystyried, a*<br><br>*(b) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **7** | DIWEDDARIAD I STRATEGAETH A CHYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG AR GYFER 2025/26 – 2027/28 AC ADOLYGIAD O GADERNID A CHYNALIADWYEDD ARIANNOL Y CYNGOR | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo'r diweddariadau fel a restrir yn adran 2.1 yr adroddiad, a*<br><br>*(b) chymeradwyo cychwyn y cyfnod dylunio ar gyfer prosiectau Ysgol Bro Elwern, Ysgol Henllan, Ysgol Bro Cinmeirch ac Ysgol y Llys i alluogi i'r Achos Busnes Llawn gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo fel y manylir arno yn adran 4.7 ac Atodiadau 6 i 9 yr adroddiad.* |
| **8** | BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen waith y Cabinet*. |